# Cronfa Integreiddio Rhanbarthol – Proffil dwy dudalen

## ***Cefnogi Teuluoedd i Aros Gyda'i Gilydd (PR001)***

Dengys y proffil hwn y manylion lefel uchel sy'n ymwneud â'r cynnig blynyddol, monitro a gwerthuso, gan gynnwys dangosyddion, mesurau perfformiad, gwariant a'r effaith ar ddefnyddwyr gwasanaeth.

**Trosolwg / crynodeb o'r rhaglen**

Mae rhanbarth CTM yn gweithredu strategaeth gynhwysfawr i gefnogi teuluoedd ac atal plant rhag mynd i ofal trwy fentrau a dargedir, a datblygu'r gweithlu. Ymysg mentrau allweddol mae gwasanaeth therapi MAPPS pwrpasol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal, ac ystod o raglenni cymorth cyn geni, gyda'r nod o rymuso rhieni bregus, cynyddu gwytnwch rhieni, lleihau'r risg o rieni / plentyn yn gwahanu, annog perthynas gadarnhaol, bondio ac ymlyniad rhwng rhieni a phlant, ac atal babanod rhag mynd i ofal.
Ar yr un pryd, mae'r rhanbarth yn datblygu Model Ymarfer Newid Systemig mewn gwaith cymdeithasol, gan bwysleisio dulliau sy'n seiliedig ar gryfderau a phartneriaethau cydweithredol ar draws y sectorau statudol a gwirfoddol. Dan arweiniad Ymarferydd Arferion / Systemig, nod y fenter hon yw gwella effeithiolrwydd ymyrraeth, morâl staff, a chadw gafael ar staff, wrth leihau'r senario cylchynnol o deuluoedd yn dychwelyd i wasanaethau. Mae Gweithiwr Allgymorth penodedig sy'n canolbwyntio ar dadau er mwyn gwella ymgysylltiad a lleihau risgiau o fewn unedau teuluol hefyd yn darparu gwasanaeth hanfodol sy'n canolbwyntio ar ymwneud tadau â bywyd teuluol.

Yn gyffredinol, mae dull CTM yn ceisio mynd i'r afael ag achosion sylfaenol yn gynnar, hybu sefydlogrwydd teuluol, gwella canlyniadau hirdymor i blant a theuluoedd ar draws y rhanbarth, gyda'r prif nod o atal plant rhag mynd i ofal.

## Cynnyrch RIF:

*Model gofal sylfaenol:*

Teuluoedd i aros gyda'I gilydd

*Grŵp/iau a chomisiynu integredig:*

Phlant a pbobl ifanc

*Galluogwyr:*

Cynllunio a chomisiynu integredig

Datblygu ac integreiddio'r gweithlu

*Dull rhanbarthol:*

Cyflywnir y rhaglen gan bartneriaid lluosog o'r sector statudol a gwirfoddol ac mae ar gael ar draw y rhanbarth cyfan.


**Blaenoriaeth (sy'n cysylltu â'r Cynllun Ardal)**

Cefnogaeth ymddygiad i blant, pobl ifanc a'u teuluoedd.

Cyflwyno ymagwedd system gyfan well ar gyfer darparu cymorth iechyd meddwl i blant a phobl ifanc ar draws y rhanbarth.

Bydd teuluoedd yn gallu cael gafael ar y wybodaeth a'r cymorth a gánt cyn, yn ystod ac ar ôl diagnosis.

## Gwariant y prosiect – £129,767 (BA 2023/24




*Prosiectau/partneriaid sy'n cefnogi cyflawni:*

| |
|---|
| BIP CTM |
| CBS RhCT |
| CBS MT |
| CBSP |
| |
| |


*Crynodeb o wariant:*

Mae'r cyllid a dderbynnir gan y Gronfa yn gyfraniad tuag at ddarparu ystod ehangach o wasanaethau cymorth blynyddoess cynnar ar draws y rhanbarth cyfan. Defnyddiwyd y cyllid a ddarparwyd yn ystod 2023/24 yn llawn yn ystod y flwyddyn.


## Allbynnau rhaglen (ffigyrau blynyddol):
*(gan gynnwys mesurau canlyniad ychwanegol)*

| | |
|---|---|
| Nifer yr asesiadau a gynhaliwyd (amdanaf i) | 2753 |
| Nifer y bobl a gefnogir (cyfanswm fesul chwarter) | 1996 |
| Nifer yr atgyfeiriadau a dderbyniwyd | 727 |
| Nifer y rhieni sy'n cymryd rhan weithredol mewn atal cenhedlu hirdymor | 317 |
| Nifer y tadau a gefnogwyd | 165 |
| Nifer y cynlluniau ôl-eni a ddatblygwyd | 99 |
| Nifer y teuluoedd sy'n cwblhau tyfu ymennydd | 99 |
| Nifer yr ymgynghoriadau systemig a gwblhawyd | 45 |

## Deilliannau rhaglen: (mesurau sylfaenol)
*(Rhifau)*




## Deillianau rhaglen: (mesurau sylfaenol)




## Trosolwg perfformiad: (crynodeb)

Mae'r MAPSS a'r Gwasanaethau Cyn Geni yn CTM wedi dangos perfformiad cadarnhaol wrth ddarparu cymorth therapiwtig ac ataliol hanfodol. Mae MAPSS wedi llwyddo i gynorthwyo 393 o blant â phrofiad o ofal gydag ymyriadau wedi'u teilwra, gan gyfrannu at welliannau sefydlogrwydd a llesiant. Bu adborth rhanddeiliaid yn gyson gadarnhaol, gan amlygu manteision fel llai o drais rhwng plant a rhieni a gwell integreiddio addysgol. Mae partneriaethau cydweithredol a Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth wedi symleiddio'r broses o ddarparu gwasanaethau ar draws 3 ALl, gan sicrhau bod unedau therapi'n cael eu dyrannu'n effeithlon. Mae ehangu gwasanaethau cyn-geni drwy gyllid rhanbarthol wedi hybu cymorth i deuluoedd mewn perygl, er bod pryderon ynghylch dibyniaeth ar gyllid allanol. Ymhlith yr heriau mae oedi cychwynnol o ran atgyfeirio ac achosion cymhleth iawn.

## Effaith y rhaglen (ansoddol):

Mae'r MAPSS a'r Gwasanaethau Cyn Geni yng Nghwm Taf Morgannwg wedi cael effaith ansoddol sylweddol ar blant a brofodd ofal a'u teuluoedd. Mae MAPSS wedi gwella sefydlogrwydd lleoliadau, lleihau trais rhwng plant a rhieni, ac wedi hwyluso gwell integreiddio addysgol. Bu adborth gan weithwyr cymdeithasol, gofalwyr a phobl ifanc yn hynod gadarnhaol, gan amlygu gallu gwell i reoli anawsterau a gwell rheoleiddio emosiynol ymhlith plant.

Llwyddodd gwasanaethau cyn geni i adeiladu rhwydweithiau ymddiriedaeth a chefnogaeth ar gyfer rhieni sydd wedi profi gofal, gan arwain at dros 80% o'r babanod a atgyfeiriwyd at y gwasanaeth Baby in Mind yn aros gyda'u rhieni. Mae cyflwyno gwasanaeth Magu wedi dechrau mynd i'r afael ag anghenion cymorth ataliol, er bod angen asesu ei effaith hirdymor o hyd.
Mae'r rhaglen hon wedi meithrin perthynas gydweithredol rhwng awdurdodau lleol a darparwyr gofal iechyd, gan greu dull cydweithredol o ymyrryd yn gynnar. Fodd bynnag, erys heriau fel oedi o ran atgyfeirio cychwynnol, cymhlethdod llwyth achosion uchel, a dibyniaeth ar gyllid allanol. Yn gyffredinol, cymerodd y rhaglen gamau sylweddol i ddarparu cymorth hanfodol a gwella canlyniadau i blant a theuluoedd bregus, gan ddangos gwerth dull cydgysylltiedig, aml-asiantaeth.

## Argymhellion:

Parhau i ariannu'r Rhaglen.

Dangosodd y rhaglen effeithiau cadarnhaol sylweddol ar blant, rhieni, a gofalwyr, gan gynnwys gwell sefydlogrwydd lleoliadau, llai o drais, gwell rheoleiddio emosiynol, a gwell hyder ymhlith rhieni.

Mae adborth gan weithwyr cymdeithasol, gofalwyr a defnyddwyr gwasanaeth yn amlygu'n gyson fanteision ac effeithiolrwydd y cymorth a ddarperir. Mae'r rhaglen yn mynd i'r afael ag anghenion cymhleth na all gwasanaethau prif ffrwd eu diwallu'n aml. Mae'r gefnogaeth gyfannol ac arbenigol yn hanfodol i'r boblogaeth darged. Mae'r gwasanaethau a ddarperir hefyd yn llenwi bylchau hanfodol yn y strwythurau cymorth presennol, yn enwedig ar gyfer plant sydd wedi cael profiad o ofal a rhieni bregus.

Ystyriaethau ychwanegol:

Sicrhau cyllid cynaliadwy: Amlygu sefydlogrwydd ariannu hirdymor y tu hwnt i'r Gronfa er mwyn cynnal ac ehangu gwasanaethau.

Gwella integreiddio a chydweithio: Datblygu ymhellach ddull integredig ar draws yr ardal ranbarthol.

Hyfforddiant wedi'i dargedu Darparu hyfforddiant arbenigol a chefnogaeth barhaus i ofalwyr maeth a rhieni mabwysiadol i reoli trawma a phroblemau ymddygiad yn effeithiol.

Rhwydweithiau cymorth cymheiriaid: Sefydlu grwpiau cymorth i ofalwyr rannu profiadau, gan leihau unigedd a straen.